



Dyma



Llewelyn ap Morgan



 Cadw



Rydych ar fin cwrdd â
chymeriad o'r gorffennol



Ei enw yw Llywelyn ap Morgan ac mae'r arglwydd Cymreig a frwydrodd ochr yn ochr â'r arweinydd gwrthryfelgar o fri, Owain Glyndŵr.

Roedd Owain Glyndŵr yn byw dros chwe chan mlynedd yn ôl. Fe fu'n gwasanaethu'r brenin, Rhisiart yr Ail, fe fu'n byw yn Llundain am gyfnod ac fe fu'n brwydro ochr yn ochr â'r Saeson yn erbyn yr Albanwyr.

Fe siaradai Saesneg a Ffrangeg yn ogystal â Chymraeg.



Pan gipiodd Harri 4ydd y goron Lloegr oddi wrth Rhisiart, fe newidiodd hyn i gyd a chan ddatgan ei hun yn wir reolwr Cymru, fe arweiniodd Owain wrthryfel mawr yn erbyn y brenin. I ddechrau fe fu hwyl ar bethau i Owain a'i ddilynwyr ond wedi nifer o frwydrau fe lwyddodd y Saeson eu gorchfygu. Fe wrthododd Owain Glyndŵr ildio a ni charcharwyd. Yn ôl y chwedl rhyw ddydd fe fydd e'n esgyn eto i frwydro'r Saeson.



Fe aeth Llywelyn ap Morgan i ryfel wedi'i ddiogeli gan arfwisg. Yn y dyddiau hynny fe fyddai'r marchog a'i geffyl wedi'u gorchuddio gan blatiau o ddur. Gan fod hynny'n gwneud hi'n amhosib gweld wyneb unrhyw un, rhaid oedd cael rhywbeth arall er mwyn adnabod pobol ar faes y gad ac fe ddechreuont nhw baentio lliwiau a chynlluniau ar eu harfwisg er mwyn i bawb eu hadnabod.

Fe wisgwyd eu cynlluniau ganddynt hwy yn unig, gan adael neb o dan amheuaeth am eu hunaniaeth. Herodraeth yw'r enw am ddefnyddio'r fath gynlluniau.




Mae Llywelyn ap Morgan yn byw a bod yn ôl rheolau cwrteisi. Mae'r rheolau hynafol yma yn datgan bod yn rhaid iddo ddiogelu'r egwan, gwasanaethu ei gymuned ac amddiffyn yr eglwys. Rhaid iddo fod yn ddewr, onest, hael, cwrtais a boneddigaidd.




Un o arfau pwysicaf mae Llywelyn yn ei ddefnyddio yw'r bwa hir. Mae'r bwa cyn hired â thaldra'r person sy'n ei ddefnyddio.

Mae bwâu Cymreig yn cael eu creu o'r onnen sy'n bren ystwyth a chryf iawn.



Mae'r cordyn yn cael ei wneud o gywarchen, planhigyn sy'n cynhyrchu ffibrau hir. Mae gan bob saeth dair pluen iâr fel ei fod yn hedfan yn syth a blaen mhetal i dreiddio arfwisg.






Amser
Gweithgaredd



Gwneud y llafn gorau!

Llafn yw'r rhan o'r bwa sy'n plygu. Gwnewch gyfres o lafnau o wahanol ddefnyddiau ee pren, mhetal, plastig

Gwnewch yn siŵr bod pob llafn yr un maint. Clampiwch un pen y llafn i fwrdd er mwyn bod y pen arall yn medru plygu.



Plygwch y llafn i lawr a'i ddefnyddio i saethu lwmp o glai chware i'r awyr. Amcangyfrifwch yr uchder a'i nodi i lawr. Parhewch gyda'r llafnau eraill er mwyn darganfod y defnydd gorau. Gwnewch yn siŵr bod pob sampl yn cael ei blygu'r un maint.



Wedi i chi ddarganfod y defnydd gorau, ceisiwch hydoedd gwahanol er mwyn gweld os yw hynny'n gwneud gwahaniaeth.

Cynlluniwch saeth!



1

Gwnewch baladr o ddarn o hoelbren. Dan oruchwyliaeth oedolyn, taflwch e bob yn ail at y targed. Nodwch gywirdeb bod taflriad.

2

Nawr, ychwanegwch ben i'r saeth. Fe ellir neud hyn o Blu Tack neu glai chwarae ac mae'n ychwanegu pwysau at flaen y saeth. Ailadroddwch yr arbrawf er mwyn gweld os yw'r saeth yn fwy cywir.




3

Nawr ychwanegwch plu. Os nad oes plu ar gael defnyddiwch ddarnau o gerdyn neu blastig tenau. Ailadroddwch yr arbrawf unwaith eto a mesur y cywirdeb.



Triwch greu'r saeth fwyaf cywir drwy newid pwysau pen y saeth a maint y plu. Darganfyddwch beth a ddigwydd os yw'r plu yn cael eu dirdroi.

Cwricwlwm



Gwyddoniaeth

* Mae bod yn chwilfrydig a chwilio am atebion yn hanfodol i ddealltwriaeth a rhagweld ymddygiad.

* Mae grym ac egni yn darparu sylfaen i ddeall ein bydysawd.

* Mae meddwl am gynllunio a pheirianeg yn cynnig ffyrdd technegol a chreadigol i ddatrys anghenion a dyheadau cymdeithas.